

**SWANSEA UNIVERSITY
PRIFYSGOL ABERTAWE**

Minutes of a meeting of the
CORPORATE RESPONSIBILITY COMMITTEE
held on 9th July 2020

Cofnodion cyfarfod y
PWYLLGOR CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL
a gynhaliwyd 9^{fed} o Gorffennaf 2020

Present: Greg Ducie (Cadeirydd); Dr Heidi Smith (Pennaeth
Yn bresennol: Cynaliadwyedd); Louise Nowell (Pennaeth Iechyd a
Diogelwch); Andy Walters (Swyddog Parhad a Gwynwch
Busnes); Gareth Evans (Cynrychiolydd yr Undeb); Simon
Davies (Rheolwr Risgiau); Yr Athro Mike Charlton
(Cadeirydd yr Is-bwyllgor Ymbelydredd); William Walker
(UCU – Cynrychiolydd yr Undeb); Dr Joel Loveridge
(Cadeirydd yr Is-bwyllgor Peryglon Biolegol a GMO);

In Attendance: Louise Church (Ysgrifenyddes Dros Dro);

Yn bresennol:

Apologies: Ni chafwyd ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau:

1. MATERION CYFANSODDIADOL (yn flynyddol yng nghyfarfod cyntaf y sesiwn academiaidd)

1.1 I adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor (papur P1920-370 wedi'i atodi).

Awgrymodd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Ymbelydredd ïoneiddio y dylai'r cylch gorchwyl ystyried yr is-bwyllgor ymbelydredd anïoneiddio.

CYTUNWYD y dylai'r Pwyllgor fabwysiadu'r cylch gorchwyl.

1.2 I adolygu'r cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor (papur P1920-370 wedi'i atodi).

Adolygodd y Pwyllgor y cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor.

CYTUNWYD fod y cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor yn addas.

1.3 I adolygu cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y Pwyllgor, gweithrediadau a wnaed y llynedd ac unrhyw gynnydd a wnaed tuag at gyflawni cydbwysedd tecach rhwng y rhywiau.

Casgliad y drafodaeth oedd bod y pwyllgor yn ymrwymedig i gyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiau.

1.4 I dderbyn datganiad oddi wrth Ysgrifenyddes y Pwyllgor mewn perthynas â chyhoeddi enwau aelodau'r pwyllgor.

'Dylai aelodau fod yn ymwybodol y caiff cofnodion y Pwyllgor hwn eu gosod ar fewnwyd y Brifysgol. Defnyddir enwau yn y cofnodion cyn lleied â phosib, ond caiff enwau'r aelodau sy'n bresennol neu sy'n ymddiheuro am eu habsenoldeb eu rhestru. Os bydd gan unrhyw aelod bryderon am y mater hwn, dylid cysylltu â Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethu.'

GWEITHREDU: Sylwer pawb

2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 18^{fed} GORFFENNAF 2019

CADARNHAWYD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9^{fed} Hydref 2019.

3. MATERION YN CODI

4. BUSNES Y CADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn oedd ei gyfarfod cyntaf a hoffai i'r cyfarfod a'r drafodaeth fod yn fyr ac yn gryno oherwydd yr amgylchiadau presennol sy'n gofyn i bobl fynychu llawer o gyfarfodydd dros Zoom, sy'n gallu para'n hir weithiau. Esboniodd fod disgwyl i holl aelodau'r pwyllgor ddarllen papurau cyn y cyfarfod ac y dylai trafodaethau am y papurau fod yn berthnasol i eitemau'r agenda a bod yn gryno. Ychwanegodd nad oes angen aros tan cyfarfodydd chwarterol i godi eitemau oherwydd gellir ymdrin â hwy mewn cyfarfodydd ychwanegol yn y cyfamser.

SECTION A – Issues for decision ADRAN A – Materion i'w trafod

5. COFRESTR RISGIAU CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL

Gofynnodd y Cadeirydd i Reolwr Risgiau'r Brifysgol a'r Swyddog Parhad Busnes a Rheoli Argyfwng gymryd cyfrifoldeb am yr eitem ar yr agenda ac i amlygu materion allweddol ym mhob cyfarfod.

Gweithredu: SD ac AW

Esboniodd y Pennaeth Iechyd a Diogelwch fod yr eitem ar yr agenda yn eitem hanesyddol o gyfarfodydd blaenorol. Er bod gofyn i'r Colegau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol gadw eu cofrestrau risgiau eu hunain, ni chafwyd cofrestr risgiau swyddogol o'r is-bwyllgorau. Cytunodd i roi'r gofrestr risgiau bresennol i Reolwr Risgiau'r Brifysgol a'r Swyddog Parhad Busnes a Rheoli Argyfyngau.

Gweithredu: LN

6. RHAN 2 – POLISI IECHYD A DIOGELWCH (P1819-1369)

NODODD y Pwyllgor y papur a gylchredwyd.

Ymgynghorwyd yn helaeth ar y polisi drafft, gan gynnwys gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn y Brifysgol. Esboniodd y Pennaeth Iechyd a Diogelwch fod rhai newidiadau wedi'u gwneud i'r drafft, gan gynnwys tynnu'r matrices RACI. Bydd hi hefyd yn ychwanegu adran ar iechyd galwedigaethol gan fod llawer o'u gweithgareddau hefyd yn berthnasol i'r tîm Iechyd a Diogelwch. Mae'r fersiwn derfynol bellach ar gael i'w hafnon i'r Uwch-dîm Rheoli a'r Cyngor i'w chymeradwyo a disgwylir i'r papur eu cyrraedd ymhen y pythefnos nesaf.

CYTUNWYD y dylai'r Pwyllgor gymeradwyo'r polisi Iechyd a Diogelwch drafft a dylid ei anfon i'r Uwch-dîm Rheoli a'r Cyngor i'w gymeradwyo.

Gweithredu: LN

SECTION B – Issues for adoption or approval without discussion

ADRAN B – Eitemau i'w mabwysiadu neu i'w cymeradwyo heb drafodaeth

7. MABWYSIADU COFNODION YR IS-BWYLLGOR BIOLEGOL A GMO A GYNHALIWDYD AR 3^{ydd} GORFFENAF 2019 (P1920-374), 4^{ydd} Rhagfyr 2019 (P1920-631)

MABWYSIADWYD cofnodion cyfarfod diwethaf yr Is-bwyllgor, a gynhaliwyd ar 3^{ydd} Gorffennaf 2019 a 4^{ydd} Rhagfyr 2019.

8. MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR YMBELYDREDD ÏONEIDDIO A GYNHALIWDYD AR 10^{fed} GORFFENAF 2019 (P1920-373), 9^{fed} Hydref 2019 (P1920-1285)

MABWYSIADWYD cofnodion cyfarfod diwethaf yr Is-bwyllgor, a gynhaliwyd ar 10^{fed} Gorffennaf 2019 a 9^{fed} Hydref 2019.

9. MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR CEMEGOL A GYNHALIWDYD AR 16^{fed} HYDREF 2019

MABWYSIADWYD cofnodion cyfarfod diwethaf yr Is-bwyllgor, a gynhaliwyd ar 16^{eg} Hydref 2019.

Hysbysodd y Pennaeth Iechyd a Diogelwch y pwyllgor am swydd wag sef Cadeirydd yr is-bwyllgor. Cyfrifoldeb y tîm Iechyd a Diogelwch yw penodi Cadeirydd newydd.

Gweithredu: LN

Gofynnodd y Cadeirydd i'r holl is-bwyllgorau wneud yn siŵr eu bod yn barod a bod yr holl gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn yr haf fel rhan o ailboblogi'r campws.

Gweithredu: MC, JL, LN

SECTION C – Information Items

ADRAN C – Eitemau Gwybodaeth

10. **ISO14001 Adolygiad o System Rheoli'r Amgylchedd 2018-19 (HS)**
- **Adroddiad Bras ISO14001 (P1920-625)**
 - **ISO14001 Adolygiad Rheoli 18-19 (P1920-626)**
 - **ISO14001 Atodiad i yr Adolygiad Rheoli - Polisi Cynaliadwyedd (P1920-627)**
 - **ISO14001 Atodiad ii yr Adolygiad Rheoli - Perfformiad 18-19 (P1920-628)**
 - **ISO14001 Atodiad iii yr Adolygiad Rheoli - O a T (P1920-629)**

Esboniodd y Pennaeth Cynaliadwyedd, yn dilyn yr archwiliad systemau rheoli allanol blynyddol, caiff adolygiad rheoli ei lunio a chaiff y Pwyllgor gipolwg ar berfformiad y llynedd. Adolygir y polisi Cynaliadwyedd fel rhan o'r adolygiad rheoli a gosodir amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod. Esboniodd na fydd llawer o'r amcanoin yn cael eu cyflawni oherwydd y pandemig. Yn yr archwiliad allanol nesaf, bydd angen esbonio pam na chawsant eu cyflawni. Nododd rai anghysondebau yn y ddogfennaeth y bydd hi'n ei diwygio. Cafwyd trafodaeth am lofnodi'r polisi a chytunwyd y dylai'r Pennaeth Cynaliadwyedd anfon y polisi at yr Is-ganghellor i'w lofnodi a dylid gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor.

Gweithredu: HS

11. **Trefniadau COVID-19**
12. **Y diweddaraf am Legionella**
13. **System Rheoli Ymbelydredd**
14. **TREFNIADAU LLEOLIADAU GWAITH (P1920-382)**
15. **TREFNIADAU DIOGELWCH BIOLEGOL (P1819-1377)**
16. **TREFNIADAU ORGANEBAU WEDI'U HADDASU'N ENETIG (P1819-1378)**
17. **GOHEBIAETH**
18. **UNRHYW FUSNES ARALL**
19. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Dosberthir dyddiadau cyfarfodydd y flwyddyn academaidd Newydd cyn gynted â phosib.

SECTION D – Restricted Items
ADRAN D – Eitemau Cyfyngedig

17. **BUSNES WRTH GEFN**

Ni chafwyd busnes wrth gefn

